# Deddf Tai (Cymru) 2014

**2014 dccc 7**

## RHAN 2

DIGARTREFEDD

## PENNOD 2

CYMORTH I BOBL SY'N DDIGARTREF NEU
O DAN FYGYTHIAD O DDIGARTREFEDD

*Termau allweddol*

### 55 Ystyr digartrefedd a'r bygythiad o ddigartrefedd

(1) Mae person yn ddigartref os nad oes unrhyw lety ar gael i'r person ei feddiannu, yn y Deyrnas Unedig neu yn rhywle arall, y mae'r person—

- (a) â hawl i'w feddiannu yn rhinwedd buddiant ynddo neu yn rhinwedd gorchymyn llys,
- (b) â thrwydded datganedig neu oblygedig i'w feddiannu, neu
- (c) yn ei feddiannu fel preswylfa yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad neu reol cyfreithiol sy'n rhoi i'r person yr hawl i barhau i feddiannu neu'n cyfyngu ar hawl person arall i adennill meddiant.

(2) Mae person yn ddigartref hefyd os oes gan y person lety ond—

- (a) nad yw'n gallu cael mynediad iddo, neu
- (b) mae'n strwythur, yn gerbyd neu'n gwch symudol, sydd wedi ei ddylunio neu ei addasu i bobl fyw ynddo ac nad oes unrhyw fan lle mae'r person â'r hawl neu'r caniatâd i'w leoli ac hefyd i fyw ynddo.

(3) Ni chaniateir i berson gael ei drin fel person sydd â llety oni bai ei fod yn lety y byddai'n rhesymol i'r person barhau i'w feddiannu.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Adran 55. (See end of Document for details)*

(4) Mae person o dan fygythiad o ddigartrefedd os yw'n debygol y bydd y person yn dod yn ddigartref o fewn 56 o ddiwrnodau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 55 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 145(3)**

**I2** A. 55 mewn grym ar 27.4.2015 gan O.S. 2015/1272, ergl. 2, **Atod. para. 6**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Adran 55.